

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Adroddiad Monitro
Blynyddol ar gyfer Gofal
Cymdeithasol a Iechyd
2017-18

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126

Ebost: agc@llyw.cymru

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Gwefan y Gydarolygiaeth: www.arolygucymru.com

Ffôn: 0300 062 8163

Ebost: hiw@llyw.cymru

Gwefan: www.hiw.org.uk

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2017/18

Cynnwys

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	1
Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2017/18	1
Canfyddiadau Allweddol	2
Cyflwyniad	2
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)	3
Canlyniadau.....	6
Proffiliau Demograffig.....	6
Nifer y ceisiadau.....	7
Mathau o geisiadau	10
Awdurdodiadau sy'n bodoli eisoes	11
Awdurdodiadau newydd	11
Amserlenni Ceisiadau	14
Hyd awdurdodiad	18
Adolygiadau, Cynrychiolwyr, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) a'r Llys Amddiffyn.....	19
Ansawdd Data	19
Adborth ar yr adroddiad hwn	20
Geirfa: Termau allweddol a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro DoLS	21

Canfyddiadau Allweddol

- Cafodd Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol gyfanswm o 14,743 o geisiadau DoLS newydd yn 2017/18; cynnydd o 8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a fu'n destun DoLS yn 2017/18 yn ferched a thros 65 oed.
- Cafwyd tua 590 o geisiadau DoLS am bob 100,000 o bobl yng Nghymru yn 2017/18.
- Roedd 47 y cant o'r holl geisiadau am awdurdodiad Safonol, roedd 39 y cant am awdurdodiad Brys ac roedd 14 y cant am awdurdodiad Pellach
- Cafodd 31 y cant o holl geisiadau DoLS eu hawdurdodi, cafodd 22 y cant eu tynnu'n ôl a chafodd 6 y cant eu gwrthod. Roedd y gweddill yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn.
- Ni chafodd tua hanner (48 y cant) y ceisiadau Safonol, na dwy ran o dair (66 y cant) o'r ceisiadau Brys, benderfyniad o fewn yr amserlen statudol ofynnol; mae'r gyfran a asesir o fewn yr amserlen wedi gwella ers y llynedd.
- Yn achos pob cais, cymerodd 83 diwrnod rhwng cael ffurflen gais a gwneud penderfyniad ar gyfartaledd
- Cafodd 113 o awdurdodiadau eu hadolygu, a chafodd 72 eu herio yn y Llys Amddiffyn, yn 2017/18

Cyflwyniad

Dyma adroddiad monitro blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar weithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru, ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae'r adroddiad yn archwilio canfyddiadau allweddol 2017/18, gan ddadansoddi'r wybodaeth a disgrifio tueddiadau, pryderon a chyflawniadau. Bwriedir iddo gyfrannu at wella canlyniadau pobl sydd angen cymorth o dan Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Nod Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw adolygu eu dull o fonitro Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn canolbwyntio'n fwy ar brofiad a chanlyniadau pobl sydd wedi'u hamddifadu o ryddid. Bwriedir gwneud hyn ochr yn ochr â diwygiadau i ddeddfwriaeth, a fydd yn cyflwyno'r Trefniadau Diogelu Rhyddid. Bydd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn esgor ar newidiadau ymarferol i Gyrrff Goruchwyllo ac Awdurdodau Rheoli ac, o ganlyniad, newidiadau i'r ffordd rydym yn monitro'r broses weithredu. Mae'r oedi wrth weithredu'r ddeddfwriaeth hon wedi golygu bod y gwaith dadansoddi ansoddol yn gyfyngedig yn yr adroddiad hwn.

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)

Caiff pobl na allant wneud rhai o'u penderfyniadau eu hunain, os nad i gyd, oherwydd diffyg galluedd eu hamddiffyn a'u grymuso gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005¹ (Deddf 2005). Diben y Ddeddf hon oedd sefydlu galluedd meddyliol a'r Llys Amddiffyn. Mae Deddf 2005 yn nodi pwy all wneud penderfyniadau ar ran rhywun heb alluedd, pryd a sut. Mae'n sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er budd pennaf unigolyn, a bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys yn y penderfyniad cymaint â phosibl. Mae'r trefniadau diogelu yn darparu ar gyfer mynediad i eiriolwyr a'r hawl i herio unrhyw achos o amddifadu o ryddid yn gyfreithiol.

Cyflwynwyd y DoLS fel diwygiad i Ddeddf 2005 a daethant i rym ym mis Ebrill 2009. Mae'r DoLS yn drefniadau diogelu ychwanegol i amddiffyn hawliau pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid er mwyn diogelu eu hiechyd a'u diogelwch.

Gwnaeth dyfarniad gan y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014² egluro'r diffiniad ac ehangu cwmpas achosion o amddifadu rhywun o'i ryddid. Cyflwynodd y newid hwn brofion a gwiriadau newydd ynghylch y canlynol:

- a) pan fydd rhywun dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus neu lwyr,
- b) ac nad yw'n rhydd i adael,
- c) ac nad oes ganddo alluedd i gydsynio i'r trefniadau hyn.

Mae dyfarniad y Goruchaf Lys wedi arwain at gynnydd mawr iawn yn nifer y ceisiadau i awdurdodi DoLS. Mae'r cynnydd hwn wedi creu ôl-groniad i Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol.

Yn 2014, cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu³ ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd DoLS yn addas at y diben ac argymhellodd eu disodli. Ym mis Mawrth 2017, dan nawdd Llywodraeth y DU, lluniodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad⁴ yn amlinellu Trefniadau Diogelu Rhyddid, gan argymhell diddymu DoLS. Lluniwyd ymateb llawn gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2018, lle cytunodd y dylai system bresennol DoLS gael ei disodli ar fyrder, ac mae'n cytuno'n fras â'r model 'Trefniadau Diogelu Rhyddid'.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Galluedd Meddyliol (Diwygio) [HL] ym mis Gorffennaf 2018 oedd yn seiliedig ar gynigion Comisiwn y Gyfraith yn fras⁵. Mae'r Bil yn mynd ar ei hynt drwy'r Senedd a gwnaed diwygiadau sylweddol iddo ers ei gyflwyno. Bydd gweithdrefnau presennol DoLS a'r angen i fonitro'r ffordd mae'r cynllun yn cael ei weithredu yn parhau nes i unrhyw newidiadau i'r gyfraith gael

¹ Gweler <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents>

² Gweler https://www.supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2012_0068_Judgment.pdf

³ Gweler <https://publications.parliament.uk/pa/ld201314/ldselect/ldmentalcap/139/13902.htm>

⁴ Gweler https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jxou24uy7q/uploads/2017/03/lc372_mental_capacity.pdf

⁵ <https://services.parliament.uk/bills/2017-19/mentalcapacityamendment.html>

Cydsyniad Brenhinol a chael eu rhoi ar waith. Bydd Llywodraeth y DU hefyd yn diweddarau Codau Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a DoLS er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith.

Yn 2015 lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar y ffurflenni i'w defnyddio wrth wneud cais amddifadu o ryddid⁶.

Dim ond mewn ysbytai a chartrefi gofal y defnyddir DoLS. Gelwir y rhain yn 'awdurdodau rheoli'. 'Cyrff goruchwyllo' sy'n awdurdodi ceisiadau DoLS.

Bydd **ysbytai yn cyflwyno cais i'w Bwrdd Iechyd (BI) lleol/cyfatebol** i awdurdodi unrhyw geisiadau DoLS a wneir,

Bydd **cartrefi gofal yn cyflwyno cais i'w Hawdurdod Lleol (ALI)** am awdurdodiad o'r fath. Yng Nghymru, yr Awdurdod Lleol sy'n awdurdodi yw'r Awdurdod Lleol lle mae'r unigolyn fel arfer yn byw cyn iddo symud i gartref gofal.

Gellir cyflwyno tri phrif fath o gais yn achos unigolyn: **Safonol**, Safonol yn dilyn Brys (neu dim ond **Brys**) a **Phellach**. Defnyddir cais Safonol pan ellir rhagfynegi'r gofyniad am gais DoLS a bod digon o amser i wneud cais cyn bod ei angen. Er enghraifft, os bydd unigolyn y byddai angen ei amddifadu o ryddid mewn rhyw ffordd yn symud i gartref gofal, gall y cartref gyflwyno cais cyn iddo symud. Gellir cyflwyno cais **28 diwrnod** cyn bod angen yr awdurdodiad, felly dylai'r asesiadau sy'n ymwneud â cheisiadau Safonol gael eu cwblhau gan y corff goruchwyllo yn y cyfnod hwn.

Lle bydd angen amddifadu unigolyn o ryddid yn syth, neu cyn y gellir cael awdurdodiad Safonol, bydd awdurdodau rheoli yn defnyddio awdurdodiad Brys. Yn yr achos hwn, gall yr awdurdod rheoli awdurdodi ei hun i amddifadu rhywun o ryddid am **hyd at saith diwrnod**⁷. Daw pob awdurdodiad Brys gyda chais am awdurdodiad Safonol hefyd, a ddylai fod wedi cael ei brosesu o fewn y cyfnod o saith diwrnod pan fydd yr awdurdod rheoli yn 'hunanawdurdodi'.

Dim ond lle na ellir rhagfynegi'r gofyniad i amddifadu rhywun o ryddid y gellir defnyddio cais Brys. Er enghraifft, os caiff unigolyn ei dderbyn i'r ysbyty neu gartref gofal yn annisgwyl.

Yn ogystal â'r mathau Safonol a Brys, unrhyw gais i unigolyn sydd eisoes ag awdurdodiad DoLS (h.y. i adnewyddu/mireinio), cyflwynir cais Pellach i'r corff goruchwyllo. Mae'r rhain yn gweithredu fel cais Safonol arferol, ond maent i barhau awdurdodiad presennol. Cynhelir adolygiad o amodau a chymhwysedd o hyd.

⁶ <https://gweddiill.gov.wales/docs/dhss/publications/151102guidancecy.pdf>

⁷Gellir gofyn am estyniad o saith diwrnod arall mewn rhai amgylchiadau.

Noda'r Cod Ymarfer⁸ y dylai unrhyw awdurdodiad, ni waeth pa fath, bara cyn lleied â phosibl, a dim ond tra bo'r unigolyn perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Mae tua hanner yr holl awdurdodiadau a wneir gan Awdurdodau Lleol am y flwyddyn gyfan.

Wrth benderfynu p'un a ddylid awdurdodi cais ai peidio, gwneir **chwe asesiad** (gweler yr Eirfa), sef: Y rhain yw:

- Oedran
- Buddiannau Pennaf
- Galluedd Meddyliol
- Cymhwysedd
- Iechyd Meddwl
- Dim Gwrthodiad

Dim ond lle nad yw'n briodol cadw unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl⁹ (1983) y gellir awdurdodi DoLS. Dim ond am **flwyddyn fan bellaf** y bydd awdurdodiad DoLS yn ddilys, ond dylai awdurdodau rheoli ond cyflwyno cais am y cyfnod byrraf y disgwylir bod angen yr awdurdodiad.

Yn ogystal â pheidio â bodloni gofynion yr asesiadau hyn, gall ceisiadau gael eu tynnu'n ôl, eu canslo, neu gall yr unigolyn fod wedi symud cartref gofal neu gael ei ryddhau o'r ysbyty, gan olygu nad oes angen y cais. Y prif resymau dros dynnu ceisiadau'n ôl oedd am fod yr unigolyn:

- Wedi symud cartref, sy'n golygu bod angen cyflwyno cais newydd os oes angen.
- Wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Wedi marw cyn i benderfyniad gael ei wneud.
- Wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn olaf, ac yn hanfodol, gall unrhyw awdurdodiad gael ei adolygu ar gais yr unigolyn, ei gynrychiolydd, yr awdurdod rheoli neu'r corff goruchwylio. Bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fydd sefyllfa'r unigolyn yn newid neu os teimlir nad yw'r meini prawf ar gyfer awdurdodi'r cais yn cael eu bodloni mwyach. Gall unrhyw awdurdodiad i amddifadu rhywun o ryddid hefyd gael ei herio, fel rheol gan gynrychiolydd yr unigolyn, yn y Llys Amddiffyn¹⁰.

Cafodd data eu casglu oddi wrth Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ym mis Mai 2018 mewn perthynas â cheisiadau DoLS a gafwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18. Rhydd y data fanylion dienw am yr unigolyn y gwnaed cais amddifadu ar ei gyfer, ynghyd â'i gais/awdurdodiad.

⁸ Gweler

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130104224411/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_085476

⁹ Gweler <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1983/20/contents>

¹⁰ Gweler <https://www.gov.uk/courts-tribunals/court-of-protection>

Newidiwyd y broses o gasglu data yn 2017/18 ac mae bellach yn cynnwys ystod ehangach o ddyddiadau o ran pryd y daeth y ffurflenni i law, eu dyrannu i aseswr perthnasol, gwneud penderfyniad a'r dyddiad gorffen arfaethedig. Rhydd hyn ddealltwriaeth fwy cywir o'r amserlenni sydd ynghlwm wrth brosesu'r ffurflenni. Hefyd, erbyn hyn, rhoddir mwy o bwyslais ar gasglu gwybodaeth am awdurdodiadau parhaus a cheisiadau Pellach.

Yn sgil y newidiadau sydd ar ddod i ddeddfwriaeth DoLS, mae'n debygol y bydd angen i'r broses o gasglu data newid hefyd. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd yn unol â'r newidiadau ehangach i brosesau DoLS. Mae'n bwysig parhau i gasglu data yn y ffordd bresennol, fel bod llinell sylfaen gywir wrth i'r Senedd ystyried cyflwyno trefniadau diogelu amddiffyn rhyddid newydd. Nodir effaith hyn ar y data mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn sgil yr heriau parhaus cydnabyddedig i'r broses o weithredu cynllun DoLS ledled Cymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £329,000 ychwanegol a rheolaidd i bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd am gyfnod o 3 blynedd o fis Ebrill 2018 nes bod unrhyw newidiadau yn y gyfraith yn hysbys ac wedi'u rhoi ar waith.

Canlyniadau

Proffiliau Demograffig

Yn gyffredinol, mae demograffeg unigolion â chais DoLS yn adlewyrchu'r poblogaethau a wasanaethir gan bob un o'r cyrff goruchwyllo. Yn ôl y cyfrifiad diwethaf, mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn (dros 65 oed) mewn cartrefi gofal yn ferched (74 y cant) a/neu dros 85 oed (59 y cant)¹¹. Felly, mae'r prif grŵp o unigolion ag awdurdodiad DoLS mewn cartrefi gofal yn oedrannus ac yn ferched, gyda bron 4,000 o ferched dros 85 oed â chais am DoLS yn 2017/18, gweler Ffigur 1.

Ar gyfer pobl hŷn y cyflwynir ceisiadau DoLS bron i gyd, gydag 88 y cant o'r bobl a fu'n destun cais yn 2017/18 yn 65 oed neu'n hŷn, a 51 y cant dros 85 oed.


Hefyd, roedd 59 y cant o bob cais ar gyfer merch, sy'n codi i 62 y cant ar gyfer y rhai 65 oed a throsodd yn unig, a 69 y cant ar gyfer y rhai 85 oed neu drosodd yn unig, yn unol â'r gwahaniaethau yn y boblogaeth yn y grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hwn rhwng y rhywiau yn fwy na'r hyn a geir ymhlith poblogaeth gyffredinol Cymru, lle mae 54 y cant o'r rheini sy'n 65 oed neu drosodd, a 64 y cant o'r rheini sy'n 85 oed neu drosodd, yn ferched¹².

¹¹ Gweler

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/changesintheolderresidentcarehomepopulationbetween2001and2011/2014-08-01>

¹² Gweler <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-gender-ukcountry>

Ffigur 1. Dadansoddiad oedran yn ôl rhywedd yr unigolyn mewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar gyfer pob cais yn 2017/2018



Nifer y ceisiadau


Cafodd Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol gyfanswm o 14,743 o geisiadau DoLS newydd a phellach yn 2017/18 (5,036 ar gyfer Byrddau Iechyd a 9,707 ar gyfer Awdurdodau Lleol). Golyga hyn fod nifer y ceisiadau wedi cynyddu 8 y cant, o 13,627 yn y flwyddyn flaenorol (gweler Ffigur 2), er mai dim ond cynnydd o 0.4 y cant a fu ym mhoblogaeth Cymru¹³.

Awdurdodau Lleol sy'n cael y rhan fwyaf o geisiadau o hyd, gyda chynnydd o 10 y cant ers y llynedd, i fyny o 8,811 yn 2016/17 i 9,707 yn 2017/18. Golyga hyn y gwnaethant gael 66 y cant o'r holl geisiadau. Gwelodd Byrddau Iechyd gynnydd o 5 y cant mewn ceisiadau o 4,816 yn 2016-17 i 5,036 yn 2017-18.

Mae cryn amrywiad o ran eu lefelau cyffredinol, a'u newid dros amser. Gall hyn gael ei achosi gan nifer fawr o ffactorau, fel newidiadau mewn prosesau lleol neu agor a chau Awdurdodau Rheoli. Dengys Ffigur 2 fanylion y newidiadau hyn.

¹³ Gweler <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates>

Ffigur 2. Nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd rhwng 2015 a 2018



Yn 2017, 3.1 miliwn oedd poblogaeth amcangyfrifedig Cymru, y mae 2.5 miliwn ohoni dros 18 oed¹⁴. Golyga hyn y cyflwynwyd 590 o geisiadau fesul 100,000 o oedolion yng Nghymru ar gyfartaledd¹⁵ (gweler Tabl 1).

Fel y cyfansymiau, mae cryn wahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau sy'n berthynol i'r boblogaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd. Unwaith eto, bydd hyn yn dibynnu ar brosesau lleol, demograffeg lleol a hefyd nifer yr Awdurdodau Rheoli yn yr ardal honno.

Tabl 1. Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd, a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2017/18

	Cyfanswm y Boblogaeth 18+	Nifer y ceisiadau DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000
Awdurdodau Lleol			
Blaenau Gwent	56,054	186	332
Pen-y-bont ar Ogwr	115,071	415	361
Caerffili	142,461	448	314
Caerdydd	288,601	953	330
Sir Gaerfyrddin	149,356	647	433
Ceredigion	60,755	280	461
Conwy	95,364	380	398
Sir Ddinbych	75,794	273	360
Sir y Fflint	123,127	404	328
Gwynedd	100,332	420	419
Ynys Môn	56,365	269	477
Merthyr Tudful	47,217	148	313
Sir Fynwy	76,004	238	313
Castell-nedd Port Talbot	114,199	435	381
Casnewydd	117,014	432	369
Sir Benfro	100,513	424	422
Powys	108,273	405	374
Rhondda Cynon Taf	189,215	593	313
Abertawe	198,208	1028	519
Torfaen	73,176	314	429
Bro Morgannwg	103,446	491	475
Wrescam	106,331	524	493
Cyfartaledd Awdurdodau Lleol	113,494	441	389
Byrddau Iechyd			

¹⁴ Gweler <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/nationallevelpopulationestimates-by-year-gender-ukcountry>

¹⁵ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates>

Abertawe Bro Morgannwg	427,478	982	230
Aneurin Bevan	464,709	530	114
Betsi Cadwaladr	557,313	854	153
Caerdydd a'r Fro	392,047	941	240
Cwm Taf	236,432	932	394
Hywel Dda	310,624	598	193
Addysgu Powys	108,273	199	184
Cyfartaledd Byrddau lechyd	356,697	719	201
Cyfanswm	2,496,876	14,743	590

Mathau o geisiadau

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cyflwyno ceisiadau Safonol, Brys neu Bellach gan gartrefi gofal ac ysbytai. Defnyddir cais Safonol pan nad yw'n ofynnol i'r awdurdodiad fod ar waith eisoes (h.y. cais am ofyniad yn y dyfodol). Bwriedir i gais Brys gael ei ddefnyddio pan fo angen gofyniad amddifadu ar unwaith. Mae Pellach yn adolygu/mireinio awdurdodiad sy'n bodoli eisoes.

Ar gyfartaledd, roedd 47 y cant o'r holl geisiadau am awdurdodiad Safonol, roedd 39 y cant am awdurdodiad Brys ac roedd 14 y cant am awdurdodiad Pellach. Gan fod llawer o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty yn annisgwyl, roedd Byrddau lechyd yn fwy tebygol o gael ceisiadau Brys nag Awdurdodau Lleol; Mae 54 y cant o'r ceisiadau i Fyrddau lechyd am awdurdodiadau Brys.

Mae lefel uchel o anghysondeb rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau lechyd o ran cyfran eu ceisiadau sy'n rhai Brys neu Safonol. Y prif reswm dros hyn yw prosesau lleol a'r cyfarwyddiadau a roddir i Awdurdodau Rheoli gan y Cyrff Goruchwyllo. Er enghraifft, bydd rhai Cyrff Goruchwyllo yn gofyn i bob cais gael ei anfon fel un Safonol, ac y caiff ei ailasesu a'i flaenoriaethu unwaith y daw i law. Er efallai fod hyn yn beth cyffredin mewn sawl ardal, gall rhai fod yn cofnodi'r ceisiadau fel rhai Safonol, a gall rhai fod yn eu cofnodi fel y categori sydd newydd ei flaenoriaethu.

Mae'r canrannau hyn yn amrywio ar gyfer pob grŵp oedran a chorff goruchwyllo, gweler Tabl 2. Mae canran y ceisiadau sydd am awdurdodiad Pellach yn sylweddol uwch i'r rhai o dan 65 oed.

Mae pobl yn treulio mwy o amser yn eu lleoliad preswyl, yn hytrach na'r ysbyty, sy'n golygu bod canran y rhai sy'n cael cais Pellach yn uwch i breswylwyr cartrefi gofal, gyda thua 36 y cant mewn Awdurdodau Lleol a 15 y cant mewn Byrddau lechyd.

Tabl 2. Canran y gwahanol fathau o geisiadau ar gyfer gwahanol grwpiau oedran mewn awdurdodau lleol a Byrddau lechyd yn 2017/18

	18-54	55-64	65-84	85+
--	-------	-------	-------	-----

Awdurdodau Lleol				
Safonol	47.5%	41.2%	57.3%	63.5%
Brys	16.3%	22.5%	25.5%	21.7%
Pellach	36.2%	36.3%	17.3%	14.8%
Byrddau Iechyd				
Safonol	15.5%	20.9%	23.9%	26.2%
Brys	69.0%	64.1%	71.8%	69.8%
Pellach	15.5%	15.0%	4.3%	4.0%

Awdurdodiadau sy'n bodoli eisoes

Ar 1 Ebrill 2018, roedd 4,672 o awdurdodiadau DoLS ar waith ledled Cymru, yr oedd 3,245 (69 y cant) ohonynt ar gyfer unigolion mewn Cartrefi Gofal. Hefyd, roedd 4,930 o geisiadau ychwanegol yn dal i fynd rhagddynt, yr oedd 4,459 (90 y cant) ohonynt yn cael eu prosesu gan ALLau. Mae hyn yn golygu bod gan ryw 0.2 y cant o boblogaeth Cymru awdurdodiad DoLS ar waith, a bod gan 0.2 y cant arall gais am un.

Yn 2016/17, cafodd 4,558 o geisiadau eu prosesu (h.y. heb eu tynnu'n ôl cyn eu dyrannu i aseswr). Yn 2017/18, cafodd 5,118 o geisiadau eu prosesu, gan awgrymu y gall cyrff goruchwyllo brosesu ceisiadau'n fwy effeithlon neu gyflym, o gymharu â 2016/17. Ategir hyn gan y ffaith bod 4,645 o geisiadau yn dal i fynd rhagddynt ar ddiwedd 2016/17; yr un swm â 2017/18 er bod mwy wedi dod i law yn 2017/18.

Awdurdodiadau newydd

Un o'r newidiadau i'r broses o gasglu data eleni yw gofyn yn benodol am geisiadau Pellach. Gwnaeth casgliadau blaenorol grwpio Pellach gyda Safonol, felly collwyd y manylyn hwn. Mae'r newid hwn yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o awdurdodiadau hirdymor a gaiff eu hadnewyddu, ond hefyd na all nifer y ceisiadau Pellach gael eu cymharu'n gywir â blynyddoedd blaenorol.

O'r holl geisiadau DoLS a gafwyd yn 2017/18 (14,743), cafodd 31 y cant (4,604) eu hawdurdodi, cafodd 22 y cant eu tynnu'n ôl¹⁶ (3,211) a chafodd 6 y cant eu gwrthod (834). Felly, os mai dim ond y ceisiadau hynny a broseswyd a ystyrir (h.y. nad ydynt yn dal i fynd rhagddynt neu na chawsant eu tynnu'n ôl), mae'r gyfradd awdurdodi yn codi i 84 y cant. Golyga hyn mai nifer gymharol fach o geisiadau a ddaeth i law cyrff goruchwyllo a wrthodwyd. Mae'n llawer mwy tebygol nad oes angen y cais mwyach cyn ei asesu, yn hytrach na gwneud argymhelliad i wrthod y cais (gweler Tabl 3).

¹⁶ Y prif resymau a roddir dros dynnu ceisiadau'n ôl yw bod yr unigolyn naill ai wedi'i ryddhau o'r ysbyty neu wedi symud cartref gofal. Bydd prosesau casglu data yn y dyfodol yn gofyn i gyrff goruchwyllo roi'r rheswm dros dynnu cais yn ôl.


Tabl 3. Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi gan Awdurdodau Lleol na Byrddau lechyd yn ôl y rheswm dros eu gwrthod yn 2017/18¹⁷

	Oedr an	Budd pennaf	Cymhwys edd	Galluedd Meddyliol	lechyd Meddw l	Dim Gwrthod iad	Ddim yn achos amddifadu	Wedi'u tynnu'n ôl
ALI	0.0%	0.1%	2.1%	5.6%	3.3%	0.0%	2.1%	86.8%
BI	0.0%	1.8%	2.9%	11.7%	0.6%	0.0%	2.1%	80.9%
Cyfa nsw m	0.0%	0.8%	2.4%	8.0%	2.2%	0.0%	2.1%	84.5%

Yn 2017/18 awdurdododd Awdurdodau Lleol 3,194 o geisiadau, sy'n cynrychioli 69 y cant o'r holl geisiadau a awdurdodwyd yng Nghymru. Os oedd ceisiadau yn dal i fynd rhagddynt, wedi'u tynnu'n ôl neu'n amhriodol, ceisiadau Pellach/ Ailasesiadau oedd y math o gais lleiaf tebygol i gael ei wrthod, gyda llai na 5 y cant (50 allan o 1,174) ddim yn cael eu hawdurdodi; awdurdodwyd ceisiadau Safonol ar gyfradd o 84 y cant (336 allan o 1,983) ac awdurdodwyd rhai Brys ar gyfradd o 86 y cant (479 allan o 2,316) (gweler Ffigur 3).

¹⁷Ceir manylion y gwahanol asesiadau yn y Rhestr Termiau

Ffigur 3. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd yn 2017/18



Awdurdododd Byrddau Iechyd 1,410 o geisiadau, ond roeddent yn fwy tebygol o wrthod cais nag Awdurdodau Lleol. Er bod ceisiadau Pellach/Ailasesiadau yn dal i fod yn debygol o gael eu hawdurdodi, dim ond 77 y cant (204) o geisiadau Safonol a 71 y cant (1,052) o geisiadau Brys a awdurdodwyd.

Roedd cyfraddau awdurdodi ychydig yn uwch ar gyfer unigolion iau. Roedd 62 y cant o'r ceisiadau a awdurdodwyd ar gyfartaledd yn ymwneud ag unigolion 18-54 oed, o gymharu â 43 y cant ymhlith y rheini oedd yn 85 oed neu drosodd (gweler Tabl 4).

Tabl 4. Cyfraddau awdurdodi gwahanol grwpiau demograffig mewn awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd yn 2017/18

	18-54	55-64	65-84	85+
Awdurdodau Lleol				
Dynion	80%	78%	59%	50%
Merched	71%	79%	64%	59%
Byrddau Iechyd				
Dynion	44%	40%	31%	28%
Merched	39%	42%	32%	27%

Amserlenni Ceisiadau

Er bod y canllawiau¹⁸ yn dweud y dylai ceisiadau Safonol ddod i law ac y dylid gwneud penderfyniad yn eu cylch o fewn yr 28 diwrnod cyn bod eu hangen, cymerodd 48 y cant (706 allan o 1,482 o geisiadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch) fwy nag 28 diwrnod i'w prosesu. Yn yr un modd, cymerodd 66 y cant (1,344 allan o 2,049 o geisiadau y gwnaed penderfyniad yn eu cylch) o geisiadau Brys fwy na 7 diwrnod. Fel y gwelir yn Nhabl 5, cymerodd 51 y cant o geisiadau Safonol a 61 y cant o geisiadau Brys i Awdurdodau Lleol fwy o amser na'r hyn a nodir yn y canllawiau; cymerodd 27 y cant o geisiadau Safonol i Fyrddau Iechyd fwy nag 28 diwrnod a chymerodd 69 y cant o geisiadau Brys i Fyrddau Iechyd fwy na 7 diwrnod.

Tabl 5. Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau Safonol a Brys i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn 2017/18

	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Dros 28 diwrnod
Safonol					
ALL	2.14%	6.49%	6.10%	34.05%	51.23%
BI	6.36%	21.82%	16.82%	28.18%	26.82%
Brys					
ALL	6.20%	32.71%	20.45%	17.60%	23.05%
BI	7.73%	23.75%	24.72%	26.97%	16.83%

¹⁸ <https://gweddiill.gov.wales/docs/dhss/publications/151102guidancecy.pdf>

Er gwaethaf nifer y ceisiadau sydd wedi cymryd mwy o amser na'r hyn a nodir yn y canllawiau, mae'r gyfran a asesir o fewn y terfynau amser wedi gwella ers y llynedd. Yn 2016/17, dim ond 23 y cant o geisiadau Safonol a 14 y cant o geisiadau Brys oedd o fewn y terfynau amser gofynnol. Fodd bynnag, cododd hyn i 52 y cant ar gyfer ceisiadau Safonol a 39 y cant ar gyfer ceisiadau Brys yn 2017/18.

Unwaith y daw ffurflen i law, caiff ei chofnodi a'i blaenoriaethu cyn cael ei dyrannu i'r aseswyr perthnasol er mwyn iddynt argymhell p'un a ddylid ei hawdurdodi ai peidio. Yn 2017/18, ehangwyd y broses o gasglu data er mwyn gofyn am y dyddiadau y daeth ceisiadau i law a'u dyrannu, yn ogystal â'r dyddiadau y gwnaed y penderfyniad i'w hawdurdodi neu eu gwrthod, a'r dyddiad gorffen arfaethedig. Mae hyn yn golygu y gellir cyfrifo'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gymerwyd i brosesu ffurflen gais.

O'r 5,484 o geisiadau (3,644 i Awdurdodau Lleol a 1,840 i Fyrddau lechyd) y gwnaed penderfyniad yn eu cylch, cymerodd 83 diwrnod (134 diwrnod ar gyfer Awdurdodau Lleol a 27 diwrnod ar gyfer Byrddau lechyd) ar gyfartaledd rhwng yr amser y daeth ffurflen i law ac y gwnaed penderfyniad. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd dros ddwywaith mor hir i wneud penderfyniad am geisiadau Safonol ag yw ar gyfer ceisiadau Brys, gweler Tabl 6.

Felly, caiff ceisiadau Brys eu prosesu'n gyflymach na rhai Safonol, ond mae'r ddau yn cymryd mwy o amser na'r hyn a argymhellir yn yr amserlenni statudol. Fodd bynnag, nid yw'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gymerodd i wneud penderfyniad yn amrywio llawer ar gyfer y ceisiadau hynny a wrthodwyd neu a awdurdodwyd (gweler Ffigur 4).


Tabl 6. Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gymerwyd i brosesu ceisiadau Safonol neu Frys i Awdurdodau Lleol a Byrddau lechyd yn 2017/18

	Diwrnodau rhwng y dyddiad ar y ffurflen a'i chofnodi	Diwrnodau rhwng cofnodi a dyrannu	Diwrnodau rhwng dyrannu a gwneud penderfyniad	Cyfanswm
Safonol				
ALL	28.0	89.0	34.6	151.6
BI	1.9	8.2	19.6	29.7
Cyfanswm	23.6	52.2	30.5	106.3
Brys				
ALL	6.4	67.6	13.3	87.2
BI	2.9	16.3	5.9	25.0
Cyfanswm	4.5	32.8	8.9	46.2

Gwelir yr oedi mwyaf rhwng cofnodi ffurflen a'i dyrannu i aseswr. Mewn Awdurdodau Lleol, unwaith y caiff ffurflen ei chofnodi, mae'n cymryd 82 diwrnod ar gyfartaledd iddi

gael ei dyrannu, ac yna 29 diwrnod arall i wneud argymhelliad. Fel rheol, mae Byrddau Iechyd yn cymryd tua 13 diwrnod i ddyrannu a 12 diwrnod i wneud argymhelliad.

Ffigur 4. Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau rhwng cael cais a gwneud penderfyniad (heb gynnwys ceisiadau a gaiff eu tynnu'n ôl) ym mhob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd yn 2017/18




Hyd awdurdodiad

Noda'r Cod Ymarfer¹⁹ y dylai unrhyw awdurdodiad bara cyn lleied â phosibl, a dim ond tra bo'r unigolyn perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Mae tua hanner yr holl awdurdodiadau a wneir gan Awdurdodau Lleol am y flwyddyn gyfan. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodiadau a wneir gan Fyrddau lechyd am chwe mis neu lai, gweler Ffigur 5.

Mae angen nodi dyddiad gorffen arfaethedig ar gyfer pob awdurdodiad. Gall awdurdodiad orffen cyn y dyddiad hwnnw am sawl rheswm, er enghraifft bod rhywun yn symud i gartref gofal arall, neu fod claf yn cael ei ryddhau o'r ysbyty yn gynnar.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros orffen DoLS cyn y dyddiad gorffen arfaethedig oedd bod claf wedi'i ryddhau o'r ysbyty. Dyma oedd yn cyfrif am 46 y cant o'r holl awdurdodiadau a wnaeth orffen yn gynnar. Yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd marwolaeth yr unigolyn, a oedd yn cyfrif am 17 y cant o'r holl awdurdodiadau a wnaeth orffen yn gynnar. Hefyd, ceir nifer fach o awdurdodiadau a wnaeth orffen am nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddilys mwyach, naill ai gan y Llys Amddiffyn neu am nad oedd yr unigolyn yn bodloni'r gofynion mwyach.

Ffigur 5. Hyd arfaethedig y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob Awdurdod Lleol a Bwrdd lechyd yn 2017/18



¹⁹ Gweler

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130104224411/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_085476

Adolygiadau, Cynrychiolwyr, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA) a'r Llys Amddiffyn

Gall unrhyw awdurdodiad Amddifadu o Ryddid gael ei adolygu. Fodd bynnag, dim ond 113 o awdurdodiadau gafodd eu hadolygu yn 2017/18, sef 2.3 y cant o'r holl geisiadau a awdurdodwyd²⁰. Mae hyn yn cyfateb i tua hanner y nifer a adolygwyd yn 2016/17, er gwaethaf y cynnydd yn nifer y ceisiadau a'r awdurdodiadau sy'n bodoli eisoes.

Dylai fod gan bob cais am DoLS gynrychiolydd a enwir ar gyfer yr unigolyn, a all hybu ei fuddiannau pennaf a sicrhau bod ei anghenion yn cael eu hystyried. Y person mwyaf cyffredin a enwir yn gynrychiolydd yw aelod o'r teulu neu berthynas, gyda 58 y cant mewn Awdurdodau Lleol a 55 y cant mewn Byrddau Iechyd.

Yr ail berson mwyaf cyffredin a enwir yn gynrychiolydd yw rhyw fath o gynrychiolydd annibynnol a delir, gyda 29 y cant o gynrychiolwyr mewn Awdurdodau Lleol yn cael eu talu, a 44 y cant mewn Byrddau Iechyd. Gofalwyr di-dâl yw'r cynrychiolwyr sy'n weddill fel rheol, nad ydynt yn deulu nac yn ffrindiau.

Un enghraifft o gynrychiolydd a delir yw IMCA, sy'n gallu helpu pobl heb alluedd meddyliol i wneud rhai penderfyniadau pwysig. Mae IMCAau yn diogelu pobl heb alluedd i wneud rhai penderfyniadau pwysig. Rôl IMCA yw cynorthwyo a chynrychioli'r unigolyn yn y broses gwneud penderfyniadau a sicrhau bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei dilyn.

Mae gan IMCA dair rôl mewn achosion amddifadu o ryddid (39A, 39C a 39D):

- 39A fe'i penodir pan nad oes gan yr unigolyn neb i ymgynghori ag ef;
- 39C fe'i penodir os na fydd cynrychiolydd yr unigolyn yn gallu ei gynrychioli mwyach dros dro neu'n sydyn;
- 39D fe'i penodir i gefnogi cynrychiolydd yr unigolyn, os na chaiff y cynrychiolydd hwnnw ei dalu (e.e. aelod o'r teulu), a bod y corff goruchwylio o'r farn bod angen cymorth arno.

Cafodd cyfanswm o 72 o geisiadau eu herio yn y Llys Amddiffyn yn 2017/18, tri yn fwy nag yn 2016/17 a 33 yn fwy nag yn 2015/16. Mae'r cynnydd yn nifer yr heriau dros y cyfnod hwn yn fwy na'r cynnydd yn nifer yr awdurdodiadau.

Ansawdd Data

Caiff y data yn yr adroddiad hwn eu defnyddio i fonitro'r defnydd o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i AGC ond ni chânt eu dilysu gan AGC nac AGIC.

²⁰Cafodd 14 o'r rhain eu hadolygu droeon.

Cafodd y diffiniad o amddifadu o ryddid ei newid yn 2014, felly ni ellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y data a gasglwyd ym mlwyddyn ariannol 2013/14 a'r hyn a gasglwyd ym mlynnyddoedd ariannol 2014/15, 2015/16 a 2016/17. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y newidiadau a gyflwynwyd yma:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/485122/DH_Consolidated_Guidance.pdf

Gall fod nifer fach o achosion lle caiff ceisiadau eu labelu'n amhriodol fel rhai safonol neu frys, a gall fod rhywfaint o wall yn y canlyniadau.

Adborth ar yr adroddiad hwn

Hoffem glywed oddi wrth y sawl sy'n defnyddio ein hystadegau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y cyhoeddiad hwn neu ei gynhyrchion cysylltiedig, mae croeso i chi eu rhannu. E-bostiwch y tîm dadansoddol yn:

CIW.Analysts@gov.wales neu HIW.PIM@gov.wales.

Geirfa: Termau allweddol a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro DoLS

Eiriolaeth	Help a chefnogaeth annibynnol i ddeall materion a rhannu barn, teimladau a syniadau unigolyn.
Asesiad at ddiben y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid	Rhaid i'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol cyn awdurdodi cais.
<ul style="list-style-type: none">• Oedran	Asesu p'un a yw'r person perthnasol wedi cyrraedd 18 oed.
<ul style="list-style-type: none">• Asesiad budd pennaf	Asesu p'un a yw amddifadu unigolyn o ryddid er budd pennaf y person perthnasol, er mwyn atal niwed i'r unigolyn, ac a yw'n ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o'r fath niwed a'i ddifrifoldeb. Rhaid i Aseswr Budd Pennaf benderfynu ar hyn.
<ul style="list-style-type: none">• Asesiad cymhwysedd	Asesu p'un a yw'r unigolyn yn anghymwys i gael awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol oherwydd y byddai'n gwrthdaro â gofynion sydd wedi'u gosod, neu a allai gael eu gosod, ar yr unigolyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
<ul style="list-style-type: none">• Asesiad galluedd meddyliol	Asesu p'un a oes gan unigolyn alluedd i benderfynu a ddylai fynd i'r ysbyty neu gartref gofal er mwyn derbyn gofal neu driniaeth.
<ul style="list-style-type: none">• Asesiad iechyd meddwl	Asesu p'un a oes gan unigolyn anhwylder meddyliol. Rhaid i ymarferydd meddygol benderfynu ar hyn.
<ul style="list-style-type: none">• Asesiad dim gwrthodiad	Asesu p'un a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli o ran gwneud penderfyniadau ar ran y person perthnasol a fyddai'n atal rhoi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys a wnaed ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys gan ddirprwy neu a wnaed o dan Atwrneiaeth Barhaus.

Aseswr Budd Pennaf	Unigolyn sy'n cynnal asesiad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.
Galluedd	Hynny yw galluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Ceir diffiniad cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
Cartref Gofal	Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau proffesiynol a llunio barn am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd ag annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaethau.
Gofalwr	Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion eiddil, sâl neu sydd fel arall yn agored i niwed.
Amodau	Gofynion y gall corff goruchwylio eu gosod wrth roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Aseswr Budd Pennaf.
Cydsyniad	Cytuno ar gamau gweithredu – yn benodol yn yr adroddiad hwn cytuno ar gynllun gofal neu driniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn gyfreithiol ddilys, rhaid bod gan y sawl sy'n cydsynio y galluedd i wneud y penderfyniad, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i wneud y penderfyniad, ac nad oedd o dan unrhyw bwysau amhriodol nac wedi'i orfodi.

Y Llys Amddiffyn	Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl sydd heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Y llys hwn sy'n bennaf cyfrifol am wneud penderfyniadau ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o sut y dylai'r gyfraith gael ei rhoi ar waith.
Amddifadu o Ryddid	Mae amddifadu o ryddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud ag amgylchiadau pan gymerir rhyddid unigolyn oddi wrtho. Caiff ei ystyr ar lefel ymarferol ei ddiffinio drwy gyfraith achos.
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	Y fframwaith trefniadau diogelu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen eu hamddifadu o ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf o ran gofal neu driniaeth, ac nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a wnaed o ran eu gofal neu eu triniaeth
Consortiwm Gwent	<p>Consortiwm Gwent yw'r Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gomisiynwyd gan y Sefydliadau canlynol sydd, o dan Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (2009), yn cael eu hadnabod fel 'Cyrff Goruchwylio' o ran eu swyddogaethau o dan y Ddeddf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan • Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent • Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili • Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy • Cyngor Dinas Casnewydd • Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

AGIC	Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn cyfres o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella. .
Bwrdd Iechyd Lleol	Mae Byrddau Iechyd Lleol yn cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol partner, yn yr un ardal ddaearyddol fel arfer, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer delio â materion iechyd a llesiant. Byddant yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân, os mai nhw yw'r awdurdod rheoli.
Ysbyty Annibynnol	Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 – ysbyty sydd â'r prif ddiben o ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrig am salwch neu anhwylder meddyliol neu ofal lliniarol, neu unrhyw sefydliad arall, na chaiff ei ddiffinio'n ysbyty gwasanaeth iechyd, lle darperir triniaeth neu nyrsio (neu'r ddau) i bobl a all gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)	Eiriolwr hyfforddedig sy'n cynorthwyo ac yn cynrychioli unigolyn sydd heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan yr unigolyn unrhyw un arall i'w gynorthwyo. Cafodd gwasanaeth IMCA ei sefydlu gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 y mae ei swyddogaethau wedi'u diffinio ynddi.

Awdurdod Lleol/Cyngor

Y cyngor lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ran benodol o'r wlad. Uwch reolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Bydd gan gartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan y Cyngor awdurdodau rheoli dynodedig.

Awdurdod rheoli

Yr unigolyn neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle caiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw.

Cyfnod awdurdodi mwyaf

Y cyfnod mwyaf lle y gall corff goruchwyllo roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, na all fod am fwy na 12 mis. Ni all fod yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Aseswr Budd Pennaf, a gall orffen yn gynt gyda chytundeb y corff goruchwyllo.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl sydd heb alluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Pum egwyddor allweddol y Ddeddf yw:

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo alluedd i'w gwneud oni phrofir fel arall.
2. Rhaid i unigolyn gael yr holl help ymarferol sydd ar gael cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun.
3. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud yr hyn a all gael ei ystyried yn benderfyniad annoeth yn ddigon o reswm i'w drin fel rhywun sydd heb alluedd i wneud y penderfyniad hwnnw.
4. Rhaid i unrhyw beth a wneir, neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran unigolyn sydd heb alluedd gael ei wneud er ei fudd pennaf.
5. Dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran unigolyn sydd heb alluedd gyfateb i'r hyn sy'n cyfyngu ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol leiaf.

Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol

Mae'r Cod Ymarfer yn ategu Deddf 2005 a rhydd ganllawiau i bawb sy'n gofalu am oedolion sydd heb alluedd a/neu yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Cod yn cynnwys astudiaethau achos ac yn egluro'n fanylach nodweddion allweddol y Ddeddf

Anhwylder Meddyliol

Unrhyw anhwylder neu anabledd meddyliol, ar wahân i ddibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau. Mae hyn yn cynnwys pob anabledd dysgu.

Deddf Iechyd Meddwl 1983	Deddfwriaeth sy'n ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw unigolyn yn yr ysbyty er mwyn iddo gael triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth a gwarcheidiaeth.
Gofyniad cymhwyso	Unrhyw un o'r chwe gofyniad cymhwyso (oedran, iechyd meddwl, galluedd meddyliol, budd pennaf, cymhwysedd a dim gwrthodiad) sydd angen eu hasesu a'u bodloni er mwyn rhoi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol.
Ysbyty neu gartref gofal perthnasol	Yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle caiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid.
Person perthnasol	Person sydd wedi'i amddifadu o'i ryddid, neu a all gael ei amddifadu o'i ryddid, mewn ysbyty neu gartref gofal.
Cynrychiolydd person perthnasol	Unigolyn, sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol, a benodir i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol, a'i gynrychioli a'i gynorthwyo ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.
Cyfyngu ar ryddid	Camau a gymerir mewn perthynas ag unigolyn nad ydynt i'r un graddau nac mor ddwys â'i amddifadu o'i ryddid.
Adolygiad	Golwg ffurfiol, newydd sbon ar sefyllfa person perthnasol lle bu, neu lle y gallai fod, newid mewn amgylchiadau a all olygu bod angen diwygio awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, neu ei derfynu.
Meddygon Adran 12	Meddygon sydd wedi'u cymeradwyo o dan Adran 12(2) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Awdurdodiad safonol	Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwylio, ar ôl cwblhau asesiad statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu person perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol.
Corff goruchwylio	Adran gwasanaethau cymdeithasol Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais amddifadu o ryddid a geir gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle mae'r holl asesiadau yn cytuno, awdurdodi achos o amddifadu o ryddid.
Y Goruchaf Lys	Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl olaf yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrando achosion sydd o'r pwys cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar bawb
Amddifadu o ryddid heb awdurdod	Sefyllfa lle caiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei awdurdodi gan awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol na brys.
Awdurdodiad brys	Awdurdodiad a roddir gan awdurdod rheoli am hyd at saith diwrnod, a all wedyn gael ei ymestyn am hyd at saith diwrnod arall gan gorff goruchwylio. Rhydd hyn awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal tra bod y broses awdurdodi amddifadu o ryddid safonol yn mynd rhagddi.